# EICH Ffrynt Cartref

AMGUEDDFA CYMRU




© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

EICH

# Ffrynt Cartref

## Yr adnodd hwn |

Mae’r adnodd hwn yn canolbwyntio ar Ffrynt Cartref yr Ail Ryfel Byd er mwyn dangos ffyrdd syml o ymchwilio i hanes ar-lein. Gall gael ei ddarllen gan unigolyn neu ei rannu fel cyflwyniad. Mae’n syniad da canolbwyntio ar un adran ar y tro.

Mae’n cynnwys enghreifftiau o’r hyn all gael ei ganfod, ffilmiau tiwtorial, dolenni i adnoddau, canllawiau a mwy. Mae wedi’i ddylunio ar gyfer Cam Cynnydd 2 ond gellir ei addasu’n hawdd i bob disgybl. Gellir ei ddefnyddio fel project Cynefin ar gyfer y Dyniaethau.



*Ffrynt Cartref (enw)*
Gwaith poblogaeth sifil cenedl sydd â'i lluoedd arfog yn rhyfela dramor.

Pobl anfilwrol gwlad sy'n rhyfela, a'u gwaith i gefnogi 'ymdrech y rhyfel'.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales




# Cynnwys |

Trosolwg | t 5

Enghraifft o beth allwch chi ei ganfod a sut | t 7

Dechrau arni | t 8

Trosolwg o Lyfrau a Chasgliadau | t 10-11

Heb gysylltiad ond yn ddefnyddiol | t 12-13

Beth wnaethon ni ddysgu | t 14

Adnoddau Ar-lein | t 16-22

Syniad am broject | t 23

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd yn 1939, newidiodd bywydau miliynau o bobl o bob rhan o'r byd.

Erbyn diwedd y Rhyfel yn 1945, roedd bron i 15 miliwn o bobl wedi ymladd dros luoedd arfog Prydain.


Roedd y Ffrynt Cartref yn rhan bwysig o 'ymdrech y Rhyfel'.

Roedd dros filiwn o fenywod yn gwneud arfau rhyfel mewn ffatrïoedd ledled Prydain.

Cadwodd dros 1.4 miliwn o Wardeniaid Rhagofalon Cyrchoedd Awyr strydoedd yn ddiogel ar ben eu gwaith bob dydd.

Ymunodd dros 80,000 o fenywod â Byddin Dir y Menywod i gweithio'r tir a thyfu bwyd i gadw Prydain i fynd.

Symudwyd 3.5 miliwn o blant i ddiogelwch, a daeth nifer o'r faciwîs i lefydd diogel ledled Cymru.



Roedd cymaint yn digwydd ar y Ffrynt Cartref, mae'n anodd dychmygu'r cyfan.

Ceisiwch ganolbwyntio ar un ardal – eich milltir sgwâr chi sydd orau! Mae hyn yn helpu i ddod â hanes yn fyw ac yn aml yn haws ei ddeall.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

EICH

# Ffrynt Cartref

Enghraifft o beth allwch chi ei ganfod a sut...



Dyw pentref Hirwaun ger Aberdâr ddim yn adnabyddus am ei hanes yn yr Ail Ryfel Byd, felly beth am gymryd golwg agosach?

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Y cam cyntaf yw gwneud rhywbeth hollol naturiol i bawb heddiw – chwilio Google!

Dyma ni'n chwilio am 'Hirwaun Ail Ryfel Byd'. Mae rhai o'r canlyniadau cyntaf gan gymdeithasau hanes lleol a phapurau newydd.

Mae'r papurau newydd yn dangos bod Ffatri Ordnans Frenhinol yn Hirwaun. Fe wnawn ni nodyn o hynna am ei fod yn swnio'n ddiddorol!

Mae gwefan y gymdeithas hanes leol yn cynnig llawer o feysydd i ni ymchwilio iddyn nhw – bomio, dogni, faciwîs a milwyr yn dychwelyd adref.

Mae'r wefan yn dweud beth oedd y Ffatri Ordnans Frenhinol a pryd agorodd hi.

Rydyn ni hefyd yn canfod rywbeth o'r enw Amddiffyn Sifil y Menywod. Fe wnawn ni nodyn arall am fod hynna'n swnio'n ddiddorol hefyd.



Ar ôl chwiliad cyflym, mae sawl maes allwn ni ei archwilio, ond mae'n bwysig canolbwyntio ar un neu ddau.

Mae'n well adrodd un neu ddwy stori dda, nid llawer o straeon heb fawr o sylwedd.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Defnyddiwch Google Books i chwilio am ddeunydd ysgrifenedig sydd ddim wastad ar wefannau all roi cig ar asgwrn stori.

Does dim copi digidol o bob llyfr. Bydd rhagolwg digidol o rai llyfrau, a rhai eraill ar gael yn llawn.

Mae un llyfr yn dweud wrthon ni fod 10,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn Hirwaun, yn cynhyrchu wyth miliwn rownd o getris y mis.

Mae llyfr arall yn dweud wrthon ni fod Hirwaun yn un o dair ffatri fawr yn y de, a bod tri chwarter y gweithlu yn fenywod.

Casgliadau Ar-lein yw cofnod ar-lein Amgueddfa Cymru o'r gwrthrychau sy'n cael eu cadw ar draws yr Amgueddfa.

Rydyn ni'n mynd ati i chwilio am Hirwaun. Ar ôl sgrolio, rydyn ni'n canfod lloches Warden Rhagofalon Cyrchoedd Awyr oedd yn arfer bod wrth gatiau'r ffatri ordnans.

Rydyn ni hefyd yn canfod lluniau awyr o safle'r ffatri ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Gan ein bod ni yma, beth am chwilio am hanes yr hanesyn diddorol arall – Amddiffyn Sifil y Menywod?

Rydyn ni'n canfod bathodynnau gwreiddiol fyddai menywod yng Nghaerdydd wedi'u gwisgo, a byddai menywod yn Hirwaun wedi gwisgo'r un rhai.

Gallwch chi edrych yn fanwl ar wrthrychau yn y casgliad. Cofiwch hefyd sgrolio i lawr i weld gwrthrychau cysylltiedig – mae'n llawn pethau diddorol.

Heb gysylltiad ond yn ddefnyddiol

EICH Ffrynt Cartref

**Gall pethau tu hwnt i'ch milltir sgwâr chi helpu i esbonio'r Ffrynt Cartref lleol hefyd.**






Edrychwch ar y gwrthrychau o gasgliad Amgueddfa Cymru – dim ond y llun awyr a'r lloches wardeniaid ARP sy'n dod o Hirwaun ei hun.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Er bod llawer o’r gwrthrychau eraill ddim yn dod o Hirwaun maen nhw’n help i ddeall mwy am y straeon rydyn ni’n ymchwilio iddyn nhw.

Heb gysylltiad ond yn ddefnyddiol

EICH Ffrynt Cartref




Mae rhannau o wisg Gwasanaeth Gwirfoddol y Menywod (WVS) yn dangos pa fath o ddillad fyddai menywod Hirwaun yn eu gwisgo.



Mae oferôls gweithiwr ffatri arfau rhyfel yn Aberfan yn dangos pa fath o ddillad fyddai pobl yn eu gwisgo.



Mae lluniau o weithwyr ffatri arfau rhyfel yng Nghymru yn dangos sut le fyddai’r ffatri yn Hirwaun.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales


# Beth wnaethon ni ei ganfod...

- Roedd ffatri yn Hirwaun oedd yn gwneud arfau rhyfel.

- Agorwyd y ffatri yn 1942. Roedd hi'n cyflogi 10,000 o bobl – y rhan fwyaf yn fenywod.

- Roedd Warden ARP yn gwarchod y lle, ac yn eistedd mewn cwt metel wrth y fynedfa.

- Fe ddechreuon ni chwilio am Amddiffyn Sifil y Menywod a canfod gwrthrychau.



© Amgueddfa Cymru - Museum Wales



Roedd llawer yn digwydd ar draws y Ffrynt Cartref yng Nghymru.

Gall stori Eich Ffrynt Cartref chi fod mor fyr neu hir ag y dewiswch chi.

Gallai gynnwys dynion, menywod, plant, ffatrïoedd, ffermio – fyddwch chi ddim yn gwybod nes i chi edrych!

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Adnoddau Ar-lein


EICH Ffrynt Cartref

Does dim angen i chi greu cyfrif na rhoi unrhyw wybodaeth bersonol i ddefnyddio'r adnoddau canlynol. Dilynwch y ddolen a dechreuwch chwilio.

Defnyddiwch y bar chwilio a gwirio'r canlyniadau.

© Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Meddyliwch am y geiriau rydych chi'n eu defnyddio i chwilio. Rhowch gynnig ar lawer o wahanol eiriau. Dim ond rhai canlyniadau fydd yn ymddangos wrth deipio enw ardal neu'r Ail Ryfel Byd.




MAE GANDDON NI DUDALEN GASGLIADAU AR CASGLIAD Y WERIN HEFYD! BETH AM CHWILIO'R DDWY WEFAN?

AMGUEDDFA CYMRU
amgueddfa.cymru

**amgueddfa.cymru**

Fe welwch chi baentiadau, gwrthrychau, ffotograffau a llawer mwy yma.

Cliciwch ar y tair llinell yng nghornel dde uchaf y wefan, yna cliciwch ar 'Casgliadau ac Ymchwil'.

Gallwch chi lawrlwytho llyfrau am ddim o'r wefan hon – fel y llyfr hwn, sy'n llawn lluniau o'r Ail Ryfel Byd o bob rhan o Gymru.

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales
www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

**casgliadywerin.cymru**

Maen nhw'n llawn llyfrau, paentiadau, gwrthrychau, dogfennau, ffotograffau, recordiadau sain, straeon hanes lleol a mwy.




GWELD [ENW'R LLYFR]

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales
www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

Mae mapiau hanesyddol ar gael ar Casgliad y Werin hefyd.

Gallwch chi weld sut oedd eich milltir sgwâr yn arfer edrych.

Gwyliwch y canllaw fideo ar y dudalen nesaf i weld sut i ddefnyddio'r mapiau ar Casgliad y Werin.

Mapiau ar wefan Casgliad y Werin. Ar r hafan, ewch i dop y dudalen a chlicio ‘Mapiau’.

Rhowch enw lle yn y bar chwilio.

Bydd map modern yn dangos yr ardal.

Mae’r rhifau yn dangos eitemau sydd ar wefan Casgliad y Werin, gan wneud pethau’n haws i’w chwilio.

Cliciwch ar y blychau uwchben y map i weld mapiau hanesyddol o’r ardal.

Gallwch chi symud yn agosach a gweld sut mae’r ardal wedi newid dros amser. Mae’r mapiau hanesyddol wedi’u dyddio ac yn dangos cyfnodau amser gwahanol.

Gallwn ni weld ble roedd y Ffatri Ordnans Frenhinol yn Hirwaun. Gallwch chi hefyd weld map o heddiw neu lun lloeren.

**books.google.co.uk**

Mae miliynau o lyfrau ar gael yma. Bydd rhagolwg ar gael o rai llyfrau, a rhai eraill ar gael yn llawn, ond gall hyd yn oed darn bach o destun helpu weithiau.

**britishpathe.com**

Dyma’r lle gorau i ganfod hen luniau ar bron unrhyw bwnc neu ddigwyddiad byd-eang.

**bywgraffiadur.cymru**

Beth am rywun lleol enwog, er enghraifft? Efallai gallwch chi ganfod gwybodaeth ar bobl sydd wedi codi arian, gwleidydd, arwr.

**britainfromabove.org.uk**

Ffotograffau awyr o 1919 i 1953. Mae rhain yn ffordd wych o weld sut mae'r tirwedd wedi newid.

EICH

Ffrynt Cartref

## Syniad am broject

Allwch chi feddwl am broject sy’n defnyddio’r holl wybodaeth rydych chi wedi ei ganfod?

Os na, beth am greu tudalen flaen papur newydd eich hun?

Ysgrifennwch am yr hanes rydych chi wedi’i ganfod. Defnyddiwch adnoddau rhad am ddim ar-lein fel Canva i ganfod templedi papur newydd.

DYMA NI’N CREU PAPUR NEWYDD AR ÔL YMCHWILIO I HIRWAUN.

# Newyddion Hirwaun

## FFATRI ORDNANS FRENHINOL

### Un o’r rhai mwyaf yng Nghymru

Agorwyd y ffatri yn 1942, ac mae’n gallu cynhyrchu hyd at wyth miliwn rownd o getris bob mis. Mae’n cyflogi 10,000 o bobl, gyda’r rhan fwyaf yn fenywod. Mae tair ffatri arfau fawr yn y De – Pen-y-bont ar Ogwr, Hirwaun a Glasgoed – yn cyflogi 60,000 o bobl.






### Amddiffyn Sifil y Menywod

Mae merched diwyd Amddiffyn Sifil y Menywod Hirwaun wedi bod ar ymgyrch ailgylchu arall yn casglu metel sgrap ar gyfer Ymdrech y Rhyfel, ac hefyd wedi agor ffreutur a stondinau lluniaeth i bawb.



EICH

# Ffrynt Cartref

AMGUEDDFA CYMRU

Defnyddiwch yr e-lyfr hwn i archwilio gwrthrychau o gasgliad Amgueddfa Cymru a darganfod sut oedd bywyd yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



EICH

# Ffrynt Cartref

AMGUEDDFA CYMRU

*Bydden ni wrth ein bodd yn gweld eich penawdau papurau newydd neu eich ymchwil mewn unrhyw fformat! Cofiwch eu rhannu gyda ni ar-lein yn @Amgueddfa_Learn.*

amgueddfa.cymru/dysgu/

museum.wales/learn/